

# UNLIMITED...

## Gwneud cais am Brif Wobr Ymchwil a Datblygu

### Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2018 byddwn yn dyfarnu nifer o wobrau ymchwil a datblygu i brosiectau uchelgeisiol gan artistiaid eithriadol sy'n anabl a chwmnïau i'r anabl ym mhob maes celfyddydol. Gellir gwneud cais am y rhain, allai hefyd fod yn darparu cymorth i fentora, gan gychwyn ym mis Medi 2017.

### Gwybodaeth am 'Unlimited'

Mae 'Unlimited' yn bodoli i hyrwyddo celfyddydau o'r radd flaenaf gan artistiaid anabl a chwmnïau, gan herio canfyddiadau negyddol a denu cynulleidfaoedd diwylliannol newydd. Mae 'Unlimited' yn cynrychioli creadigrwydd, uchelgais, ansawdd, amrywiaeth a chydarddoldeb – gwerthoedd sy'n dod i'r amlwg ym mhopeth mae'r rhaglen yn ei wneud a'i ariannu.

'Unlimited' oedd wrth galon Olympiad Celfyddydol Llundain 2012, fu'n dathlu gwaith artistiaid anabl ar raddfa nas gwelwyd erioed o'r blaen. Llwyddodd sefydliadau 'Shape Arts' ac 'Artsadmin', ynghyd â'r Uwch-gynhyrhydd Jo Verrent, i sicrhau dyfarniad pellach o £1.8 miliwn oddi wrth Gyngor Celfyddydau Lloegr i weithredu fel partneriaid cyflenwi ar gyfer cyfnod nesaf comisiynau 'Unlimited' a phrosiectau ymchwil a datblygu rhwng 2016 a 2020. Daw cymorth ychwanegol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, Y Cyngor Prydeinig, 'Spirit of 2012' ac, ar gyfer y rownd arbennig hon o gomisiynau, oddi wrth sefydliad 'Wellcome'.

### Pwy sy'n gallu gwneud cais?

Mae yna anogaeth ar artistiaid anabl sydd wedi eu sefydlu'n broffesiynol a chwmnïau sy'n cynorthwyo gwaith ymhlith yr anabl ac wedi eu lleoli yng Nghymru a Lloegr i wneud cais. Ystyr 'wedi eu sefydlu' ydy'r artistiaid a chwmnïau sydd wedi arddangos eu gwaith yn gyhoeddus, ac wedi derbyn ymateb cadarnhaol i hynny.

Mae 'Shape' ac 'Artsadmin' yn defnyddio diffiniad cynhwysol o anabledd yn seiliedig ar y dull '**Social Model/Model Cymdeithasol**' o fynd o'i chwmpas hi, sydd, drwy ganolbwyntio ar y rhwystrau osodir gan gymdeithas, yn cynnwys pob nam corfforol, synhwyrrol ac anweladwy, anabledd dysgu, iechyd meddwl, a chyflyrau niwro-ddargyfeiriol a gorflinder. Os ydych chi'n credu eich bod ymhlith y rhain, a/neu wedi cael profiad o rwystrau rhag mynediad, rydyn ni'n eich gwahodd i wneud cais.

Delivered by



**ARTS  
ADMIN.**

Funded by



Supported using public funding by  
**ARTS COUNCIL  
ENGLAND**



## Am ba fath o waith rydyn ni'n chwilio?

Caiff grantiau ymchwil a datblygu eu rhoi i artistiaid/i gwmnïau sy'n dymuno archwilio camau cynnar prosiect newydd. Rydyn ni'n chwilio am waith mewn unrhyw ffurf o gelfyddyd sydd yn: arloesol, rhagorol ac yn cael ei arwain gan artistiaid anabl. Am y gelfyddyd, nid am yr anabledd mae 'Unlimited' yn chwilio; gallai peth gwaith adlewyrchu anabledd, gallai arall beidio.

Gall y gwaith fod ar unrhyw destun neu thema.

Rhagwelir y caiff y cyfan o'r ymchwil a datblygu (R & D) ei rannu neu ei arddangos mewn rhyw ffurf fel rhan o bob un prosiect.

Bydd y mwyafrif o'r gwaith ymchwil a datblygu sy'n derbyn cefnogaeth ar gyfer artistiaid/cwmnïau wedi eu lleoli yn Lloegr gan mai Cyngor Celfyddydau Lloegr ydy'r prif ffynhonnell ariannu. Bydd hefyd gefnogaeth i artistiaid wedi eu lleoli yng Nghymru, diolch i gyllid ychwanegol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru.



Ar gyfer y rownd hon, mae 'Wellcome' yn bartner i 'Unlimited' i gyllido gwobr ymchwil a datblygu ar gyfer prosiect sy'n ymwneud ag ymchwil iechyd neu wyddoniaeth. Bydd y wobwr hon yn chwilio am gynigion sy'n cynnig dulliau arloesol a chyffrous o roi ystyriaeth i ymchwil gwyddonol ynglŷn â iechyd o fewn y broses greadigol, gan annog cydweithrediad dyfeisgar ac annisgwyl all gyflwyno persbectif gwahanol i arferion yr artist ac i waith ymchwilwyr.

Ar gyfer ymchwil a datblygu'n unig bydd y cyllid hwn. Gall yr ymgeiswyr fynd ymlaen i wneud cais am Brif Gomisiwn yn y rownd nesaf, lle gwahoddir ceisiadau yn nhymor yr Hydref 2018, allai fod hefyd yn cynnwys cais am ragor o ymchwil a datblygu os oes angen hynny. Fodd bynnag, dydy derbyn dyfarniad ymchwil a datblygu yn y rownd eleni ddim yn gwarantu y byddwch yn derbyn arian prif gomisiwn yn y rownd nesaf.

## Am faint o swm galla i ofyn amdano?

Bydd Prif Wobrau Ymchwil a Datblygu 'Unlimited', gan gynnwys y wobwr a gefnogir gan 'Wellcome', yn amrywio rhwng **£5,000** a **£10,000**, yn ôl eu graddfa a'u huchelgais, gyda lleiafswm ychwanegol o 10% o arian cyfatebol. Disgwylir i ymgeiswyr gynnwys costau mynediad yn eu cais. Rhagwelir ariannu rhwng saith a deg gwobr Ymchwil a Datblygu.

## Meini Prawf Allweddol:

- wedi ei arwain gan anabledd
- ansawdd, arloesedd ac uchelgais
- hanes blaenorol cadarn o greu gwaith a chyrraedd cynulleidfaoedd
- cydweithredu a phartneriaethau sy'n bodoli (gall rhain gynnwys rhai heb fod â chysylltiad â chwmnïau/artistiaid/cynhyrchwyr ym maes anabledd) – neu gynlluniau i ddatblygu rhain drwy gyfrwng yr ymchwil a datblygu
- yr artist arweiniol yn byw yng Nghymru neu Loegr

Bydd y meini prawf canlynol hefyd ar y wobwr a gefnogir gan 'Wellcome':

- Arddangos posibilrwydd o bartneriaeth o ryw fath gydag ymchwilydd o faes iechyd, biofeddygol neu wyddoniaeth
- Yn archwilio'n greadigol faes ymchwil a gwyddonol ynglŷn a iechyd
- Yn defnyddio dull dyfeisgar o fynd ati, yn ehangu ar waith sy'n bodol eisoes neu gynnig safbwynt newydd ar y testun

Gobeithiwn allu cefnogi ystod o syniadau o ran ffurf y gelfyddyd, graddfa a lleoliad – ar draws yr holl wobrau.

### **Sut i wneud cais:**

Mae dwy ran i'r broses ymgeisio:

1. Mynegi Diddordeb
2. Gwneud cais llawn, dim ond y rhai fydd wedi cyrraedd y rhestr fer o ymgeiswyr

Gwneud cais ar-lein ar: [weareunlimited.org.uk/apply-to-unlimited/](http://weareunlimited.org.uk/apply-to-unlimited/)

Mae cymorth mynediad ar gael ar gyfer pob cais, gan gynnwys dogfennau Word ar gael i'w lawrlwytho ar-lein.

### **Amserlen y Gwobrau**

- **1 Medi 2017, 12pm:** porth ceisiadau Mynegi Diddordeb yn agor
- **6 Tachwedd, 12pm:** porth ceisiadau Mynegi Diddordeb yn cau
- **4 Rhagfyr 2017:** Hysbysu'r ymgeiswyr sydd ar neu heb fod ar y rhestr fer
- **5 Chwefror 2018, 12pm:** dyddiad cau derbyn ceisiadau llawn gan ymgeiswyr ar y rhestr fer
- **Mawrth 2018:** paneli dewis, dyfarnu a lansio
- **Mai 2018:** y prosesau Ymchwil a Datblygu (R&D) yn cychwyn
- **Medi 2019:** dyddiadau olaf cyflwyno gwaith heb ei orffen os yn berthnasol/addas

### **Mynegi Diddordeb**

Byddwch angen cyflwyno:

- Atebion i dri chwestiwn ynglŷn â'ch cymhwyster i wneud cais
- Gwybodaeth sut i gysylltu â chi ac enw'r prosiect, yr artist(iaid) a chynhyrchedd ar gyfer y prosiect
- Deunyddiau atodol ar ffurf delweddau, fideo, awdio neu ddogfennau, perthnasol i'r prosiect dan sylw neu'n dangos gwaith blaenorol (Opsïynol)
- Trosolwg o'r prosiect (dim mwy na 80 gair) a disgrifiad (dim mwy na 400 gair)
- Bras-amcan o'r swm byddwch yn gofyn amdano oddi wrth 'Unlimited', os byddwch ar y rhestr fer
- Bywgraffiad byr o'r artist/cwmni arweiniol a'r partner cynhyrchu (100 gair yr un)
- Nodi os ydych yn dymuno cael eich ystyried ar gyfer gwobr 'Wellcome'

Gwahoddir ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer i wneud cais llawn ac fe fyddan nhw'n derbyn canllaw arbennig gan dîm 'Unlimited' am y meini prawf perthnasol i'w syniad am brosiect.

### **Cais Llawn**

Bydd angen i'r ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer gyflwyno'r canlynol:

- Enw'r prosiect, yr artist(iaid) a'r cynhyrchedd sydd ynghlwm â'r prosiect
- Crynodeb o'r prosiect (dim mwy na 200 gair)
- Cynnig sy'n rhoi manylion y prosiect a'i addasrwydd ar gyfer 'Unlimited' (dim mwy na 1000 gair)
- Cyllideb fanwl
- Rhagor o wybodaeth am fynediad ar gyfer artistiaid a cynulleidfaoedd (dim mwy na 200 gair)
- Bywgraffiadau llawn neu CV ar gyfer yr artist(iaid) arweiniol a'r cynhyrchedd (cynhyrchwyr)

- Deunyddiau atodol ar ffurf delweddu, fideo, awdio, neu ddogfennau, perthnasol i'r prosiect dan sylw neu'n dangos gwaith blaenorol.
- Cymeradwyaeth cymheiriaid a/neu sylw yn y wasg: llythyr argymell a/neu sylw yn y wasg (dim mwy na 2 dudalen)

Darllenwch ein hadran Cwestiynau Mynych (FAQ) am ragor o wybodaeth gan gynnwys sut i wneud cais drwy wahanol fformatau.

### **Y Broses Ddethol**

Caiff pob cais Mynegi Diddordeb cymwys ei asesu gan banel fydd yn cynnwys cynrychiolwyr Cyngor Celfyddydau Lloegr, Y Cyngor Prydeinig, Canolfan Southbank, Tramway, Ymddiriedolaeth Wellcome a phum unigolyn wedi eu dewis ymlaen llaw drwy broses ceisiadau agored. Bydd anabledd yn cael blaenoriaeth gan y panel. Am ragor o wybodaeth am y Panel Dewis, ewch i'r wefan [weareunlimited.org.uk/apply-to-unlimited/selection-panel](https://weareunlimited.org.uk/apply-to-unlimited/selection-panel)

### **A fydd yna gyfle eto i wneud cais am gyllid oddi wrth 'Unlimited'?**

Bydd. Fe fydd 'Unlimited' yn dyfarnu grantiau hyd at 2020. Dyma nhw:

- Gwahoddiad i geisio yn 2018 ar gyfer gwobrau 2019. Math o wobrau: Prif Gomisiynau; Prif Wobrau Ymchwil a Datblygu a Chomisiynau i Artistiaid Datblygol.
- Gwahoddiad i geisio yn 2019 ar gyfer gwobrau 2020. Math o wobrau: Prif Wobrau Ymchwil a Datblygu a Chomisiynau i Artistiaid Datblygol.

Os hoffech chi gael y wybodaeth hon mewn fformat arall, yna gofynnwch i ni, os gwelwch yn dda.

Os oes gennych awydd gofyn cwestiynau eraill, wedi i chi ddarllen yr holl wybodaeth, cysylltwch â ni drwy e-bost ar: [info@weareunlimited.org.uk](mailto:info@weareunlimited.org.uk) neu drwy alw Clara Giraud yn 'Artsadmin' ar **020 7247 5102**.